CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR : COFNODION CYFARFOD
7 Medi 2022, yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: D Gwyn, N. Jones, Ll. Roberts, A Mummery, J Jones, O Evans	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. D. Idriswyn Roberts, , R. Williams, (Cyngor Sir)
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
4.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06/07/22. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. LlR yn cynnig a NJ yn eilio.
5.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
5.1	**CYFETHOL AELODAU** Y cyn-glerc am gysylltu â'r Cyngor Sir yn Llangefni i sicrhau bod dogfennau priodol yr aelodau a gyfetholwyd wedi eu derbyn.
5.2	**MAES CHWARAE STAR** Er bod y coed yn y cae chwarae wedi eu torri nid ydynt wedi eu clirio a mae'r cwmni (Glanfor) dal hefo goriad y giât. Yn ogystal â hyn nid yw'r cwmni sy'n torri'r gwair wedi bod yno dros yr haf sy'n golygu, unwaith eto, nad oedd y cae ar gael i'r cyhoedd yn ystod y gwyliau. Mae'r cwmni torri coed wedi cytuno i roi pris i ni am dorri'r gwair a 'rydym wedi gofyn i'r cyn-glerc i ofyn i'r cwmni am glirio'r coed, dychwelyd y goriad ac am bris i dorri'r gwair CYN talu am y gwaith.
5.3	**Gor yrru a materion diogelwch ffyrdd** Er ein bod ni wedi cysylltu mwy nag unwaith â John Morris o gynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol nid ydym wedi cael y ffurflenni i ymuno â'r cynllun
6.0	**Ceisiadau Cynllunio** • **FPL/2022/94 :** Fron Heulog, Penmynydd. Gyrrwyd llythyr i'r adran gynllunio yn awgrymu bod y cais yn cael ei wrthod. • **FPL/2022/156 :** Glyn, Lon Penmynydd, Penmynydd. Dim gwrthwynebiad gan fod datblygiadau cyffelyb yn y plwyf
7.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
7.1	**Ymddiswyddiad y Clerc**. Gofynnwyd i'r aelodau feddwl am unrhyw berson addas ar gyfer y swydd. DG i e-bostio telerau'r swydd i bawb er gwybodaeth.
7.2	**Deddf Llywodraeth Leol.** Gan nad oes brys i ymateb i'r ddogfen penderfynwyd rhoi hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf
8.0	**Materion Ariannol** Mae'r cyn-glerc am gael trefn ar holl ddogfennaeth y Cyngor ac am gyflwyno'r rhain i ni yn ein cyfarfod nesaf.
9.1	**Hysbysebu swydd y Clerc** Penderfynwyd hysbysebu'r swydd ar fyrder ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned a DG i gysylltu â'r Cyngor Sir i'w hysbysu bod swydd ar gael.
	EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF Ail edrych ar amser cychwyn cyfarfodydd
	Dyddiad y cyfarfod nesaf 05/10/22
Llofnod: Cadeirydd	**Dyddiad: 05/10/22**